ESBONIO

GwE

YSGOL BOTWNNOG

YSGOL DYFFRYN OGWEN

YSGOL TRYFAN

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Pa ferfau amhersonol a geir yn y testun hwn?

Pa effaith gafodd y boicot ar yr eglwysi?

Pa ansoddair sy'n cael ei ddefnyddio yn y darn er mwyn dangos pwy oedd y gwrthwynebwyr amlwg?

Cynorthwywyd y rhai a oedd yn boicotio'r bysiau yn ystod y dyddiau cyntaf gan gwmnïau tacsi du. Wrth i'r boicot ddatblygu, aeth eglwysi ati i brynu ceir i fynd â phobl i'r gwaith ac yn ôl adref. Achosodd hyn broblemau oherwydd wrth i weithwyr ddod ynghyd yn y mannau ymgynnull penodol roedd yr heddlu yn aflonyddu arnynt ac yn defnyddio cyfreithiau lleol i geisio atal torfeydd rhag ymgasglu. Arestiwyd llawer o'r gyrwyr am fân droseddau trafnidiaeth.

Er y gweithredu, roedd y boicotwyr yn cael eu bygwth yn barhaus. Y Montgomery White Citizens Council oedd yn arwain y gwrthwynebiad. Cynyddodd aelodaeth y corff hwn i bron 12,000 erbyn mis Mawrth 1956 ac ymhlith yr aelodau roedd rhai o brif swyddogion dinas Montgomery. Mewn ambell achos, defnyddiwyd trais eithafol yn erbyn y boicotwyr. Taflwyd bomiau tân at gartrefi King ac arweinwyr eraill yn ystod 1956.

Daeth y bygythiadau nesaf ym mis Chwefror 1956, pan arestiwyd tua 90 o ffigurau blaenllaw, gan gynnwys King a Rosa Parks, am drefnu boicot anghyfreithlon. Er iddynt gael eu canfod yn euog, ni chawsant eu cyhuddo ar ôl apelio.

Wrth i'r boicot barhau yn ystod haf 1956, rhoddodd y wasg genedlaethol yn UDA fwy o sylw i'r digwyddiadau gan lwyddo i godi ymwybyddiaeth o broblemau'r casineb hiliol dwys yn y de.

**Rosa Parks**




**1913 - 2005**

Sut y daeth pobl i wybod am y rhagfarn yn UDA?

Esboniwch sut y dangosodd y Montgomery White Citizens Council eu hanfodlonrwydd gyda'r boicotwyr?

Pa gysylltair sy'n dangos na fu pethau'n hawdd i'r boicotwyr?